# Comisiwn y Senedd

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Hybrid - Digital** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 6 Medi 2023** |
| Amser: | **10.30 - 11.55** |

## Cofnodion: SC(6)2023(8) Arbennig

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | **Y Gw. Anrh. Elin Jones AS (Cadeirydd)**<br>**Janet Finch-Saunders AS**<br>**Adam Price AS**<br>**Ken Skates AS**<br>**Joyce Watson AS** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**<br>**Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd**<br>**Arwyn Jones, Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu**<br>**Ed Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau**<br>**Matthew Richards, Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol**<br>**Kate Innes, Prif Swyddog Cyllid**<br>**Leanne Baker, Prif Swyddog Pobl dros dro**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau**<br>**Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd**<br>**Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd** |
| Eraill yn bresennol: | |

## 1 Cyflwyniad

1.a Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Ni chafwyd ymddiheuriadau.

1.b Datgan buddiannau

Nododd Adam Price AS fod ei frawd yn cael ei gyflogi gan Gomisiwn y Senedd.

## 2 Cynnig Taliad Costau Byw 2023-24

Yn dilyn penderfyniad y Comisiwn mewn egwyddor i wneud taliad costau byw yn y flwyddyn ariannol gyfredol, cafodd y Comisiynwyr y wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfod rhwng swyddogion ac Ochr yr Undebau Llafur (TUS) a gynhaliwyd ar 5 Medi. Eglurwyd bod y sefyllfa wedi mynd y tu hwnt i'r hyn a gyfleuwyd yn y papurau a bod y Clerc yn gofyn am gyfle i'r Bwrdd Gweithredol ymateb i geisiadau undebau llafur am ragor o wybodaeth cyn cytuno ar y taliad yn ystod y flwyddyn.

Trafododd y Comisiynwyr awydd i flaenoriaethu ymateb i anghenion y rhai sydd ar y cyflogau isaf a nodwyd na fu'n bosibl sicrhau cyfranogiad llawn yn y prosesau dros gyfnod yr haf. Gwnaethant ystyried goblygiadau lleihau gwasanaethau, er enghraifft, cymorth TGCh, hyfforddiant a gweithgarwch rhyngseneddol, a gweithgarwch newydd na fyddai'n cael eu cefnogi yn y modd disgwyliedig. Mynegwyd pryderon hefyd am yr effeithiau ar lesiant staff oherwydd y mesurau arbed costau. Roedd un o'r Comisiynwyr yn dal i wrthwynebu gwneud taliad y tu hwnt i'r cytundeb cyflog presennol.

Cytunodd y Comisiwn y dylai Swyddogion barhau â'r trafodaethau gydag Ochr yr Undebau Llafur ar y cyd (sy'n cynnwys cynrychiolwyr o PCS, FDA, a Prospect) am gyfnod byr. Byddai'r trafodaethau'n seiliedig ar fforddiadwyedd y taliad a'r effaith y byddai setlo'r anghydfod yn ei chael ar staff a gwasanaethau. Awgrymodd y Comisiynwyr y dylai Ken Skates, fel y deiliad portffolio perthnasol, fod yn rhan o'r broses pe bai hynny'n ddefnyddiol. Gofynnwyd am i nodyn byr gael ei baratoi i'r Comisiynwyr ei rannu â'u grwpiau fel diweddariad am y camau sy'n cael eu cymryd, a gofynnodd y Llywydd i'r Comisiynwyr rannu adborth o'u grwpiau wedi hynny.

Dywedodd y Clerc ei bod yn fwriad ganddi, fel y Swyddog Cyfrifo, ysgrifennu at y Pwyllgor Cyllid ynghylch y goblygiadau unwaith y byddai gwedd derfynol ar y sefyllfa gan y byddai'r amrywiad yn y defnydd o arian yn un sylweddol.

## 3 Cyllideb Ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2024-25

Trafododd y Comisiynwyr waith a wnaed i baratoi ar gyfer cyllideb ddrafft derfynol y Comisiwn ar gyfer 2024-25, a fydd yn cael ei chyflwyno ar gyfer penderfyniad terfynol yn y cyfarfod ar 25 Medi.

Gwnaeth y Comisiynwyr drafod a rhannu barn mewn perthynas â'r canlynol:
- costau staffio ac effaith yr argyfwng costau byw;
- gofyniad y gyllideb weithredol a chyfanswm gofyniad y gyllideb ar gyfer 2024-25, gostyngiadau costau o ran pwysau'r gyllideb, ac arbedion y mae angen eu nodi drwy'r broses cynllunio gwasanaeth a'r adolygiad corfforaethol;
- y Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig ac amcangyfrifon cyllideb y dyfodol;

- clustnodi costau sy'n ymwneud â rhaglenni sy'n ymateb i waith y gofynnwyd amdano gan y Senedd a'r Pwyllgor Cyllid h.y. Diwygio'r Senedd, Ffyrdd o Weithio, ac unrhyw Daliad Costau Byw yn y dyfodol;
- y Penderfyniad a chefnogaeth i'r Bwrdd Taliadau.

Dywedodd y Clerc mai argymhelliad y Bwrdd Gweithredol oedd peidio ag ymgorffori cyllid ar gyfer canlyniad cytundeb cyflog yn y dyfodol, yn seiliedig ar safbwynt cyfredol PCS yn y trafodaethau cyflog, yn y gyllideb graidd. Argymhellodd y Bwrdd Gweithredol y dylid cyflymu trafodaethau ynghylch y cytundeb cyflog nesaf. Cadarnhaodd y Comisiynwyr y seiliau ar gyfer datblygu cyllideb ddrafft derfynol y Comisiwn ar gyfer 2024-25, gan gynnwys paratoi ar sail y cytundeb cyflog presennol. Bydd y gyllideb ddrafft derfynol yn cael ei hadolygu yn y cyfarfod nesaf a'i gosod wedi hynny yn unol â gofynion y Rheolau Sefydlog. Cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol ysgrifennu at y Pwyllgor Cyllid i ddarparu gwybodaeth ychwanegol ar gyfer y gwaith craffu ar y gyllideb.